**Sesiwn 2000-2001 Rhif 21**

# PAPURAU BUSNES

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MAWRTH, 10 HYDREF 2000

## RHAN 2 – ADRAN H

**Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 2pm**

**2.00pm**
**Penodiad i'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â pharagraffau 1(1) a 4 o Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penodi'r Cynghorydd E Caerwyn Roberts MBE YH (Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol) yn aelod o Gyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol yn lle'r Cynghorydd Gordon Cawood.

**Cymerwyd pleidlais:**
O blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43
**Cymeradwywyd y cynnig**

**Ethol i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol Janet Ryder (Plaid Cymru) i'w Bwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yn lle Janet Davies (Plaid Cymru).

**Cymerwyd pleidlais:**
O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Cymeradwywyd y cynnig**

**Ethol i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 57 (8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol Dafydd Wigley (Plaid Cymru) i'w Bwyllgor Datblygu Economaidd yn lle Helen Mary Jones (Plaid Cymru).

**Cymerwyd pleidlais:**
O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Cymeradwywyd y cynnig**

**Ethol i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol Dai Lloyd (Plaid Cymru) i'w Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn lle Owen

John Thomas (Plaid Cymru).

**Cymerwyd pleidlais:**
O blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47
**Cymeradwywyd y cynnig**

**Ethol i'r Pwyllgor Addysg Cyn 16, Ysgolion ac Addysg Gynnar**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol Cynog Dafis (Plaid Cymru) i'w Bwyllgor Addysg Cyn 16, Ysgolion ac Addysg Gynnar yn lle Pauline Jarman (Plaid Cymru).

**Cymerwyd pleidlais:**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd y cynnig**

**Ethol i'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ôl 16**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol Owen John Thomas (Plaid Cymru) i'w Bwyllgor Addysg a Hyfforddiant ôl 16 yn lle Jocelyn Davies (Plaid Cymru).

**Cymerwyd pleidlais:**
O blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47
**Cymeradwywyd y cynnig**

**Ethol i'r Pwyllgor Deddfau**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 59(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol Pauline Jarman (Plaid Cymru) i'w Bwyllgor Deddfau yn lle Jocelyn Davies (Plaid Cymru).

**Cymerwyd pleidlais:**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd y cynnig**

**Ethol i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â rheol sefydlog 16.2 yn ethol Cynog Dafis (Plaid Cymru) i'w Bwyllgor Safonau Ymddygiad yn lle Janet Davies (Plaid Cymru).

**Cymerwyd pleidlais:**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd y cynnig**

**Ethol i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 15.4 yn ethol Ieuan Wyn Jones (Plaid Cymru) i'w Bwyllgor Materion Ewropeaidd yn lle Jocelyn Davies (Plaid Cymru).

**Cymerwyd pleidlais:**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd y cynnig**

**Ethol i'r Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth**:
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol yr aelodau canlynol i'w Bwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth:

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru) yn lle Gareth Jones (Plaid Cymru); a

Helen Mary Jones (Plaid Cymru) yn lle Jocelyn Davies (Plaid Cymru).

**Cymerwyd pleidlais:**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Cymeradwywyd y cynnig**

**Ethol i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**:
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol yr aelodau canlynol i'w Bwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

Pauline Jarman (Plaid Cymru) yn lle Geraint Davies (Plaid Cymru); a Jocelyn Davies (Plaid Cymru) yn lle Helen Mary Jones (Plaid Cymru).

**Cymerwyd pleidlais:**
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Cymeradwywyd y cynnig**

**2.08pm**
**Datganiad Personol gan Tom Middlehurst ar ei ymddiswyddiad o'r Cabinet**

**2.16pm**
**Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd**
Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd Cwestiwn 3 yn ôl

**2.46pm**
**Datganiad gan y Prif Ysgrifennydd ar y Bartneriaeth arfaethedig rhwng Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol**

**3.17pm**
**Datganiad gan y Prif Ysgrifennydd ar y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Gyflenwadau Tanwydd**

**3.45pm**
**Pwyntiau o Drefn**

**1. David Melding ynghylch dilysrwydd y teitl Dirprwy Brif Ysgrifennydd gan nad yw'n ymddangos yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad.**

Cadarnhaodd y **Llywydd** y byddai pob un o'r Rheolau Sefydlog yn cael eu hystyried pe bai'r Cynulliad yn symud tuag at lywodraeth glymblaid.

2. **Pauline Jarman** ar y gwahaniaethau rhwng GwellCymru.Com a gymeradwywyd gan y Cynulliad a'r Cytundeb Partneriaeth a gyhoeddwyd gan y Cabinet.

Cadarnhaodd y **Llywydd** y byddai'n rhaid cyflwyno cynnig gerbron y Cynulliad cyn newid Gwellcymru.com. Mater i'r llywodraeth oedd ymgynghori.

3. **Val Feld** ar ddatgan diddordeb gan Aelodau.

Cadarnhaodd David Davies nad oedd ganddo unrhyw ddiddordeb i'w ddatgan. Cadarnhaodd y Llywydd mai mater i'r Aelodau oedd datgan diddordeb.

4. **Alun Cairns** ynghylch datganiad a wnaed gan y Prif Ysgrifennydd ar BAE yn ystod Wythnosau yn yr Etholaethau y Cynulliad. Cadarnhaodd y Prif Ysgrifennydd ei fod wedi bod yn awyddus i wneud datganiad cyn gynted ag y gallai. Byddai'n ailadrodd y datganiad gerbron y Cynulliad fel bod modd gofyn cwestiynau.

**3.57pm**
**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
Derbyniwyd 10 gwrthwynebiad i'r datganiad Busnes o dan Reol Sefydlog 5.4 ac aeth y Trefnydd ati yn ffurfiol i gynnig bod y Cynulliad yn mabwysiadu'r datganiad busnes.

**Cymerwyd pleidlais:**
O blaid 31; Ymatal 0; Yn erbyn 22; Cyfanswm 53
**Cymeradwywyd y** Datganiad Busnes.

**Cymeradwyo Rheoliadau Hadau (Rhestr Genedlaethol o Amrywiadau) 2000 – TYNNWYD YN ÔL**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.33 yn cymeradwyo'r drafft o'r Rheoliadau Hadau (Rhestr Genedlaethol o Amrywiadau) 2000 y cafodd copi ohono ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Medi 2000.

**4.11pm**
**NEWIDIADAU I'R RHEOLAU SEFYDLOG**

**1. RHEOL SEFYDLOG 6.5**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn gweithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 26:

i. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2000;

ii. yn cymeradwyo'r gwelliannau canlynol i'r Rheolau Sefydlog;

iii.yn penderfynu bod y gwelliant yn dod i rym ar unwaith:

**Rheol Sefydlog 6.5**

Ar y diwedd (ar ôl "adroddiadau a gyflwynir gan y pwyllgorau pwnc") ychwaneger

"Ni chaniateir i gynigion sy'n cynnig dadleuon ar adroddiadau a gyflwynir gan y pwyllgorau pwnc gael eu gwella".

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 38; Ymatal 0; Yn erbyn 13; Cyfanswm 51

**Cymeradwywyd y cynnig gyda'r 2/3 o fwyafrif angenrheidiol.**

**2. RHEOLAU SEFYDLOG 6.37 AND 22.58**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn gweithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 26:

i. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2000;

ii. yn cymeradwyo'r gwelliannau canlynol i'r Rheolau Sefydlog;

iii.yn penderfynu bod y gwelliant yn dod i rym ar unwaith:

**Rheol Sefydlog 6.37**

Dileer ii gan fewnosod:

"(ii) Bydd Ysgrifennydd Cynulliad, neu Aelod a enwebir gan Ysgrifennydd Cynulliad, gyda chydsyniad y Llywydd ymlaen llaw, yn ymateb; a"

**Rheol Sefydlog 22.58**

Dileer y frawddeg derfynol (yn dechrau "Bydd y cyfryw gais ….")
Dywedodd y Trefnydd bod yna wall teipio ac y dylid dileu'r ail goma.

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 43; Ymatal 1; Yn erbyn 7; Cyfanswm 51
**Cymeradwywyd y cynnig gyda'r 2/3 o fwyafrif angenrheidiol.**

## 3. RHEOL SEFYDLOG 28 NEWYDD A NEWIDIADAU I REOLAU SEFYDLOG 6, 8 A 19

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn gweithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 26:

i. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2000;

ii. yn cymeradwyo'r gwelliannau canlynol i'r Rheolau Sefydlog;

iii.yn penderfynu bod y gwelliant yn dod i rym ar unwaith:

**Rheol Sefydlog 28 newydd**

**PWYLLGOR Y TY**

Teitl a Chylch Gwaith

28.1 Bydd yna Bwyllgor Ty a fydd yn rhoi cyngor i'r Llywydd, y Cynulliad a'r Clerc ar y canlynol:-

1. gweinyddu Swyddfa'r Llywydd heb gynnwys y materion canlynol sy'n ymwneud â'r staff:-
    i. eu hamodau a'u telerau gwaith;
    ii. eu strwythur a'u rheolaeth;
    iii. trefniadau a wneir o dan adran 63 o Ddeddf Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau sydd wedi'u dirprwyo i'r staff;

b. arfer swyddogaethau Swyddfa'r Llywydd gan gynnwys y gwasanaethau, y cyfleusterau a'r llety sy'n cael eu darparu ar gyfer yr Aelodau, eu staff cymorth a'r cyhoedd;

ond heb gynnwys materion:-

i. sy'n ymwneud â swyddogaeth y Llywydd wrth benderfynu a ddylai mater gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Safonau;
i. sy'n ymwneud â chynnal cyfarfodydd llawn a phwyllgorau'r Cynulliad;
ii. sydd o fewn cyfrifoldeb y Pwyllgor Busnes;

c. cyflogau, lwfansau a phensiynau'r Aelodau;

ch. cynnwys canllawiau sydd i'w cyhoeddi mewn perthynas â'r materion a nodir yn (a)-(c) uchod;

d. cyllideb Swyddfa’r Llywydd.

Aelodaeth

28.2. Bydd y Cynulliad yn ethol i’r Pwyllgor un aelod o bob grwp gwleidyddol yn y Cynulliad, ynghyd ag un aelod arall i’w gadeirio. Os caiff aelod heblaw’r Llywydd ei ethol i gadeirio’r Pwyllgor, bydd gan y Llywydd hawl i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Os caiff aelod heblaw’r Dirprwy Lywydd ei ethol i gadeirio’r Pwyllgor, bydd gan y Dirprwy Lywydd hawl i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

28.3. Gall aelod o’r Pwyllgor, ar ôl rhoi hysbysiad ymlaen llaw i’r Cadeirydd, gael ei gynrychioli yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor gan Aelod arall a enwebir o blith yr un grwp gwleidyddol y mae’r Aelod hwnnw’n perthyn iddo. Caiff yr Aelod a enwebir gymryd rhan yng nghyfarfod y Pwyllgor fel pe bai’n aelod o’r Pwyllgor.

28.4. Caiff aelod o’r Pwyllgor gadeirio un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn absenoldeb y Cadeirydd. Penodir yr aelod hwnnw gan y Pwyllgor naill ai yn y cyfarfod o dan sylw neu mewn cyfarfod blaenorol.

Cyfarfodydd

28.5. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf unwaith ym mhob pedair wythnos y bydd y Cynulliad yn cynnal cyfarfodydd llawn, oni bai bod y Pwyllgor yn penderfynu fel arall. Caiff y pwyllgor gytuno i gynnal cyfarfodydd ychwanegol.

28.6. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat ond caiff cofnodion y cyfarfodydd eu cyhoeddi chwe wythnos ar ôl pob cyfarfod.

28.7. Enwebir aelod o’r Pwyllgor i ateb cwestiynau i’w hateb ar lafar yn un o gyfarfodydd llawn y Cynulliad yn unol â pharagraff 6.3(iv).

## RHEOL SEFYDLOG 6 – Busnes y Cynulliad yn y Cyfarfodydd Llawn

**Para 6.3 Mewnosod is-baragraff newydd**

"(iv) i un Aelod o Bwyllgor y Ty ateb cwestiynau sydd i’w hateb ar lafar o leiaf unwaith, ac am o leiaf bymtheng munud, ym mhob pedair wythnos y bydd y Cynulliad yn cynnal cyfarfodydd llawn."

**Ychwanegu paragraff 6.26A newydd**

"6.26A Caiff Aelodau gyflwyno cwestiynau i’w hateb ar lafar gan aelod o Bwyllgor y Ty ynghylch unrhyw fater sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 28."

**Para 6.28**

Ar ôl "i'r Prif Ysgrifennydd o dan baragraff 6.3(i)" mewnosoder "neu i aelod o Bwyllgor y Ty o dan baragraff 6.3(iv)".

**Para 6.30**

Yn yr ail frawddeg, ar ôl "Ysgrifenyddion y Cynulliad" mewnosoder "a’r aelod o Bwyllgor y Ty"

**Para 6.31**

Ar y diwedd, mewnosoder "Ni fydd y paragraff hwn yn gymwys i gwestiynau sydd i’w hateb ar lafar gan aelod o Bwyllgor y Ty".

**Para 6.33**

Ar y diwedd, mewnosoder "neu i Bwyllgor y Ty" ynghylch ei gyfrifoldebau yntau".

**Ychwanegu paragraff 6.34A newydd**

"6.34(A) Caiff Aelodau gyflwyno cwestiynau sydd i’w hateb yn ysgrifenedig gan gadeirydd Pwyllgor y Ty ynghylch unrhyw fater sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 28."

**Rheol Sefydlog 8 - Pwyllgorau**

**Para 8.25A**

Yn y frawddeg olaf, ar ôl "Y Pwyllgorau Pwnc " yn lle "a’r Pwyllgor Safonau Ymddygiad" rhowch ", y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a Phwyllgor y Ty ".

## RHEOL SEFYDLOG 19 – Gweithdrefnau Cyllid

**Ychwanegu paragraff 19.00 newydd**

**<u>"Penderfynu Cyllideb Swyddfa’r Llywydd</u>**

19. 00 Ym mhob blwyddyn ariannol, erbyn 20 Medi fan bellaf, bydd Pwyllgor y Ty yn ystyried y gyllideb ar gyfer Swyddfa’r Llywydd. Yn sgil trafod rhwng y Llywydd, y Clerc a’r Ysgrifennydd Cyllid, bydd aelod o Bwyllgor y Ty yn gosod cyllideb ddrafft ar gyfer Swyddfa’r Llywydd, erbyn 1 Hydref fan bellaf. Ar yr un pryd, bydd yr aelod o Bwyllgor y Ty yn cyflwyno cynnig bod y gyllideb ddrafft yn cael ei mabwysiadu. Dylai’r gyllideb ddrafft ymdrin fel rheol â’r flwyddyn ariannol ddilynol a’r dyraniadau dros dro ar gyfer y ddwy flynedd wedyn, neu am gyfnod sy’n briodol ym marn yr Ysgrifennydd Cyllid. Ni fydd y cynnig bod y gyllideb ddrafft yn cael ei mabwysiadu yn destun gwelliannau a rhaid

ei ddadlau erbyn 10 Hydref fan bellaf. Os caiff y cynnig ei fabwysiadu, dylai'r gyllideb honno ddod yn gyllideb derfynol ar gyfer Swyddfa'r Llywydd a chaiff ei hymgorffori fel y cyfryw yng nghyllideb ddrafft a chyllideb derfynol y Cynulliad."

**Para 19.5 <u>Addasiadau i Gyllideb y Cynulliad yn ystod y Flwyddyn</u>**

Ychwanegu is-deitl newydd

"**Newidiadau i'r Prif Grwpiau Gwariant**"

Ar y dechrau, mewnosoder "Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraff 19.5A,"

**Ychwanegu paragraffau 19.5A a 19.5B newydd**

"19.5A Ac eithrio mewn achosion brys, dim ond drwy gynnig a gynigir gan aelod o Bwyllgor y Ty y gwneir unrhyw newid yn ystod y flwyddyn ariannol yn lefel yr adnoddau a ddyrennir i'r prif grwp gwariant a sefydlwyd ar gyfer Swyddfa'r Llywydd yn y gyllideb derfynol a fabwysiadwyd o dan baragraff 19.00. Ni fydd unrhyw gynnig o'r fath yn destun gwelliannau. Mewn achosion brys, yn ddarostyngedig i baragraff 19.5B, caiff y Clerc newid lefel yr adnoddau a ddyrennir i'r grwp gwariant hwn ond, mewn achos o'r fath, bydd aelod o Bwyllgor y Ty yn rhoi gwybod i'r Cynulliad am y camau a gymerwyd cyn gynted ag y bydd yn rhesymol ymarferol.

19.5B Rhaid i unrhyw newid a gynigir gan y Clerc mewn blwyddyn ariannol yn lefel yr adnoddau a ddyrennir i'r prif grwp gwariant a sefydlwyd ar gyfer Swyddfa'r Llywydd gael ei drafod yn gyntaf gyda'r Llywydd a Phwyllgor y Ty ac wedyn gydag Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad. Rhaid cynnal trafodaethau o'r fath hefyd cyn i'r Clerc, mewn achosion brys, newid lefel yr adnoddau a ddyrennir i'r prif grwp gwariant hwn."

**Para 19.6**

Ychwaneger is-bennawd newydd

**"Newidiadau o fewn y Prif Grwpiau Gwariant"**

Ar y dechrau, mewnosoder "Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau ym mharagraff 19.7A,"

**Ychwaneger paragraff 19.7A newydd**

"19.7A Ni fydd darpariaethau paragraffau 19.6 a 19.7 yn gymwys ar gyfer y prif grwp gwariant a sefydlwyd ar gyfer Swyddfa'r Llywydd. Yn ystod blwyddyn ariannol, caiff Clerc y Cynulliad, ar ôl ymgynghori â'r Llywydd a Phwyllgor y Ty, ac ar ôl hysbysu Ysgrifennydd Cyllid y Cynulliad, gymeradwyo trosglwyddo adnoddau o fewn y prif grwp gwariant a sefydlwyd ar gyfer Swyddfa'r Llywydd, rhwng y dyraniadau ariannol o fewn y prif grwp gwariant ac o'u mewn."

**Ychwaneger paragraff 19.22 newydd**

"19.22 Bydd darpariaethau paragraffau 19.13 i 19.21 yn gymwys pan fydd y Llywydd yn awdurdodi Trafodiad Hysbysadwy, gan osod cyfeiriadau at "aelod o Bwyllgor y Ty" yn lle cyfeiriadau at "Ysgrifennydd Cynulliad".

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50

**Cmeradwywyd y cynnig gyda'r 2/3 o fwyafrif angenrheidiol.**

**4.36pm**
**Dadl ar Greu Cyllideb i Swyddfa'r Llywydd**
**Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 19:**

> yn cymeradwyo'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer Prif Grwpiau Gwariant Costau a Gweinyddiaeth Ganolog y Cynulliad ar gyfer 2000-2001, fel a nodir yn Nhabl 1 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth 3 Hydref 2000
>
> yn cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer Prif Grwp Gwariant Costau'r Cynulliad ar gyfer 2001-2002, 2002-2003, a 2003-2004 fel a nodir yn Nhabl 2 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth 3 Hydref 2000
>
> yn cymeradwyo ail-enwi'r Prif Grwp Gwariant 'Costau'r Cynulliad' yn Brif Grwp Gwariant Swyddfa'r Llywydd

**Cymerwyd pleidlais:**
O blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 40
**Cymeradwywyd y cynnig**

**4.41pm**
**Dadl ar Addasiadau i Gyllidebau'r Prif Grwpiau Gwariant**
Bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 19.5, yn cymeradwyo'r trosglwyddiadau ar draws y Prif Grwpiau Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2000-01 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth 3 Hydref.

Cynhwysir y newidiadau arfaethedig i Brif Grwpiau Gwariant 2000-2001 mewn Tabl a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Mawrth 3 Hydref 2000.

**Cymerwyd pleidlais:**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 27
**Cymeradwywyd y cynnig**

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.57pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 9.05am ddydd Iau, 12 Hydref 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 5 HYDREF 2000

The Specified Risk Material (Amendment) (Wales) Order 2000 – Nid Oes Copi Cymraeg Ar Gael

### DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 4 HYDREF 2000

Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2000
Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2000
Rheoliadau Addysg (Cyfyngu Cyflogaeth) (Cymru) 2000

### DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 3 HYDREF 2000

Y Pwyllgor Busnes Adroddiad I'r Cynulliad ar Gynigion I Newid Rheolau Sefydlog Y Cynulliad yn Unol a Rheol Sefydlog 26.1
Tabl 1 - Cyllidebau Diwygiedig 2000-2001 ar gyfer Prif Grwpiau Gwariant Gweinyddiaeth Ganolog a Chostau'r Cynulliad yn ol Llinell Gwariant y Gyllideb (NDM393)
Tabl 2 - Cyllideb 2001-2002 hyd at 2003-2004 ar gyfer Prif Grwpiau Gwariant Gweinyddiaeth Ganolog a Chostau'r Cynulliad (NDM393)
Notiadau i Dabl 1 (NDM393)
Nodyn Esboniadol (NDM393)
Cyllidebau Diwygiedig ar Gyfer 200-2001 yn Sgil Trosglwyddiadau Arfaethedig Rhwng Prif Grwpiau Gwariant (NDM394)
Nodiadau ar gyfer Tabl y Cyllidebau Diwygiedig (NDM394)
Nodyn Esboniadol (NDM394)

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 22 MEDI 2000**

General Report of the Auditor General for Wales: Financial Audit of 1998-99 Accounts. Response to the Report of the Audit Committee – Nid Oes Copi Cymraeg Ar Gael.

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 13 MEDI 2000**

Adroddiad Y Pwyllgor Deddfau (LC119) - Gorchymyn Pysgota Mor (Gorfodi Mesurau Cadwraeth y Gymuned) (Cymru) 2000